# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Dynodiadau o dan baragraff 34 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 – mangre Cinema&Co. Swansea Ltd

*Gwnaed* *am 3.12 p.m. at 26 Tachwedd 2021*

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y dynodiadau a ganlyn mewn perthynas â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff 29(1) o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ar y dyddiad hwn mewn cysylltiad â mangre Cinema&Co. Swansea Ltd yn 17 Castle Street, Abertawe, SA1 1JF ("cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru").

**2.** Mae Gweinidogion Cymru, at ddibenion paragraff 34(1) o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn dynodi'r personau a ganlyn i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i orfodi cydymffurfedd â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru—

(a) swyddog o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

(b) unrhyw berson arall sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

(c) cwnstabl.

**3.** Caiff y camau gweithredu a grybwyllir ym mharagraff 2 gynnwys y canlynol—

(a) diogelu'r fangre a grybwyllir ym mharagraff 1 drwy ei chloi neu drwy ddulliau eraill a ystyrir yn briodol gan berson a ddynodir o dan baragraff 2;

(b) cyfarwyddo unrhyw berson fel y'i crybwyllir ym mharagraff 4 o gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru i ddiogelu'r fangre honno.

**4.** Mae Gweinidogion Cymru, at ddibenion paragraff 34(2) o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn dynodi'r personau a ganlyn i ddwyn achos am drosedd o dan Ran 4 o'r Atodlen honno mewn cysylltiad â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru—

(a) y Cwnsler Cyffredinol;

(b) Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.12 p.m. at 26 Tachwedd 2021